

# Gwelliannau i'r A55 / A494 / A548 Coridor Glannau Dyfrdwy Ymgynghoriad 13 Mawrth – 5 Mehefin 2017

## A55 / A494 / A548 Deeside Corridor Improvement Consultation 13th March – 5th June 2017



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Lleoliadau'r Arddangosfa	Exhibition Venue Locations	Date	Opens	Closes
Clwb Cymdeithasol Ewloe, Ffordd yr Wyddgrug, Ewloe, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 3AU	Ewloe Social Club Mold Rd, Ewloe Deeside Flintshire CH5 3AU	Dydd Mawrth 21 Mawrth Tuesday 21st March	10:00am	8:00pm
		Dydd Mercher 22 Mawrth Wednesday 22nd March	10:00am	8:00pm
Coleg Cambria / Coleg Glannua Dyfrdwy (Celstryn), Ffordd Celstryn, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 4BR	Coleg Cambria - Deeside Kelsterton Road, Connah's Quay Deeside Flintshire CH5 4BR	Dydd Iau 23 Mawrth Thursday 23rd March	10:00am	8:00pm
		Dydd Gwener 24 Mawrth Friday 24th March	10:00am	8:00pm

# Cyflwyniad

## Introduction



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nododd Llywodraeth Cymru yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015 y bydd yn datblygu cynllun ar gyfer gwelliannau i'r A55/A494/A548 Coridor Glannau Dyfrdwy. Yn dilyn Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd a gynhaliwyd ym mis Medi 2015, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus yn yr ardal leol ar y ddau Ddewis (Glas a Choch) sydd wedi cael eu datblygu a'u hasesu ymhellach.

Hoffem gael eich barn am ddau ddewis ar gyfer yr A55/A494/A548 Coridor Glannau Dyfrdwy. Bydd yr Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus yn esbonio'r dewisiadau'n fanylach.

### Mae'r llyfryn hwn yn rhoi:

- Manylion am yr Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus sydd ar ddod (ar y clawr blaen)
- Gwybodaeth am yr astudiaeth a disgrifiadau o'r dewisiadau gwella trafndiaeth
- Manylion am sut gallwch wneud sylwadau ar y dewisiadau
- Gwybodaeth am y broses a beth fydd yn digwydd nesaf

### Diben yr astudiaeth

- Amlygu'r dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau trafndiaeth ar hyd yr A55/A494/A548 Coridor Glannau Dyfrdwy
- Amlygu mesurau a fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau hynny
- Ymgynghori'n eang, er mwyn clywed safbwyntiau sydd gan randdeiliaid, pobl leol ac busnesau ar y opsiynau.
- Arfarnu'r dewisiadau ac amlygu'r llwybr a ffeirir

Rydym ni wedi datblygu Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth wedi'u seilio ar y problemau a amlygwyd yn ardal yr astudiaeth. Rhoddodd y rhain nodau eglur ar gyfer yr astudiaeth, a ddefnyddiwyd i brofi'r dewisiadau a'r mesurau a amlygwyd gennym.

Mae rhinweddau cymharol pob dewis wedi cael eu harfarnu gan ddefnyddio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG). Crynhoir canlyniadau'r arfarniad yn y llyfryn hwn a bydd mwy o fanylion amdanynt ar gael yn yr Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus.

### Beth fydd yn digwydd os na wnawn ni unrhyw beth?

Rhagwelir y bydd y twf mewn traffig ar hyd y coridor yn cynyddu tagfeydd ac amserau teithio ledled Glannau Dyfrdwy.

The Welsh Government stated in the National Transport Finance Plan published in July 2015 that it will develop a scheme for improvements to the A55/A494/A548 Deeside Corridor. Following on from Public Information Exhibitions held in September 2015, Welsh Government is holding Public Consultation Exhibitions in the local area on the two Options (Blue and Red) that have been further developed and assessed.

We would like your views on two options for the A55/A494/A548 Deeside Corridor. The Public Consultation Exhibitions will explain the options in more detail.

### This brochure provides:

- Details of the forthcoming Public Consultation Exhibitions (on the front cover)
- Information on the study and descriptions of the transport improvement options
- Details on how you can make comments on the options
- Information on the process and what happens next

### Purpose of study

- To identify the options for addressing the transportation problems along the A55/A494/A548 Deeside Corridor.
- To identify measures which would address those problems.
- To consult with stakeholders, local people, and businesses to obtain views on options
- To appraise the options and identify the preferred route

We have developed Transport Planning Objectives (TPOs) based on the problems identified within the study area. These gave clear aims for the study, against which the options and measures we have identified have been tested.

The relative merits of each option have been appraised using the Welsh Transport Planning and Appraisal Guidance (WeITAG). The results of the appraisal are summarised in this brochure and will be available in more detail at the Public Consultation Exhibitions.

### What happens if we do nothing?

The growth in traffic along the corridor is predicted to increase congestion and journey times throughout Deeside.

# Gweithdrefnau i'w dilyn

## Procedures to be followed



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Aseswyd coridor astudiaeth yr A55/A494/A548 gan ddefnyddio gweithdrefn Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru neu WeITAG.

The A55/A494/A548 study corridor has been assessed using the WeITAG or Welsh Transport Planning Appraisal Guidance procedure.

Datblygwyd WeITAG gan Lywodraeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau bod cynigion trafnidiaeth sector cyhoeddus yn dangos y meini prawf canlynol:

WeITAG was developed by the Welsh Government and is aimed at ensuring that public sector transport proposals demonstrate the following criteria:

- Cyfraniad cadarnhaol at yr amcanion ar gyfer trafnidiaeth;
- Gwerth da am arian;
- Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyffredinol;
- Y budd mwyaf a'r effaith leiaf.

- A positive contribution to objectives for transport;
- Good value for money;
- Overall economic, social and environmental benefits;
- Maximum benefit and minimal impact.

Mae tri phrif gam i'r broses WeITAG:


There are three main stages of the WeITAG process:

- Y Cam Cynllunio;
- Cam Arfarnu 1;
- Cam Arfarnu 2.

- The Planning Stage;
- Appraisal Stage 1;
- Appraisal Stage 2.

Rydym ni ar y Cam Ymgynghoriad Cyhoeddus ar hyn o bryd o fewn Cam 2 WeITAG. Bydd ymatebion gennych chi a'ch awdurdodau lleol a chyrrff eraill â buddiant yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru a'i Hymgyngorwyr cyn i'r cynllun gael ei ddatblygu ymhellach.

We are currently at Public Consultation Stage within WeITAG Stage 2. Responses from you and your local authorities and other interested bodies will be carefully considered by the Welsh Government and its Consultant before further scheme development.





# Amcanion: Pam rydym ni'n ystyried gwneud gwelliannau i'r A55/A494/A548 Coridor Glannau Dyfrdwy?

## Objectives: Why are we looking at the A55/A494/A548 Deeside Corridor Improvement?



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae mwy o draffig yn teithio ar hyd coridor yr A55/A494/A548 nag y'i dyluniwyd ar ei gyfer, sy'n arwain at dagfeydd rheolaidd. Mae'r coridor islaw safonau modern ac mae ffyrdd ymuno/ymadael rhai o'r cyffyrdd yn rhy fyr neu'n rhy agos i'r ffordd. Mae gwleddedd gwael yn broblem barhaus hefyd.

Datblygwyd Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Gweinidog ar gyfer y Prosiect hwn gan dîm yr astudiaeth a rhanddeiliaid yn ystod cam Cynllunio WeITAG o adolygiad manwl o'r problemau presennol, er mwyn gwella diogelwch gweithredol.

### Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth

1. Lleihau amrywiadau mewn amserau teithio a gwella cydnherthedd rhwydwaith trafniadaeth coridor astudiaeth yr A55/A494 yn ystod cyfnodau prysur, digwyddiadau a gwaith cynnal a chadw.
2. Gwella cysylltiadau trafniadaeth ar gyfer busnesau yn ardal yr astudiaeth i ganolfannau economaidd a safleoedd cyflogaeth allweddol.
3. Gwella mynediad rhwng safleoedd cyflogaeth a dalgyloedd y gweithlu.
4. Gwella diogelwch a diogeldd personol gwirioneddol a chanfyddedig yr holl ddefnyddwyr trafniadaeth ar hyd coridor astudiaeth yr A55/A494.
5. Gwella athreiddedd ar draws coridor yr A55/A494 ar gyfer dulliau difodur mewn mannau allweddol a ddymunir.
6. Sicrhau bod rhwydwaith trafniadaeth ardal yr astudiaeth yn hwyluso teithiau angenrheidiol pobl a nwyddau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
7. Lleihau allyriadau carbon o drafnidiaeth ar hyd coridor astudiaeth yr A55/A494.
8. Lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd dynol gymaint â phosibl, gan gynnwys llygredd aer, sŵn a golau, ac ar y dirwedd a'r treflun.
9. Lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol gymaint â phosibl, gan gynnwys ansawdd aer lleol, llygredd dŵr a phridd, ac effeithiau ar fioamrywiaeth.
10. Cynnal a gwneud defnydd mwy effeithlon o'r seilwaith trafniadaeth presennol ar hyd coridor astudiaeth yr A55/A494.

Troednodyn – mae'r Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth yn yr holiadur ymgynghori wedi'u crynhoi o Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y prosiect

The A55/A494/A548 corridor experiences more traffic than it was designed for resulting in regular congestion. The corridor is below modern standards with some of the junctions having slip roads that are too short or too close to the road and poor visibility is an ongoing problem

The Minister's Transport Planning Objectives for this Project were developed by the study team and stakeholders during the WeITAG Planning stage from detailed review of the current problems, to improve operational safety.

### Transport Planning Objectives

1. To reduce journey time variability and enhance the transport network resilience of the A55/A494 study corridor to periods of high demand, incidents and maintenance events.
2. To improve transport connections for businesses within the study area to key economic centres and employment sites.
3. To improve access between employment sites and workforce catchment areas.
4. To improve the actual and perceived safety and personal security of all transport users along the A55/A494 study corridor.
5. To improve the permeability across the A55/A494 corridor for non-motorised modes at key points of desire.
6. To ensure that the study area transport network facilitates necessary national and regional trip movements of people and freight.
7. To reduce carbon emissions from transport along the A55/A494 study corridor.
8. To minimise adverse impacts on the human environment including air, noise and light pollution, and landscape and townscape.
9. To minimise adverse impacts on the natural environment including local air quality, water and soil pollution, and biodiversity impacts.
10. To maintain and make more efficient use of the existing transport infrastructure along the A55/A494 study

Footnote – the Transport Planning Objectives (TPOs) in the consultation questionnaire are summarised version of the project TPOs



# Y Cynigion

## The Proposals



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Mae'r Dewis Glas yn cynnwys:

- Lledu llwybr yr A55/A494
- Gwelliannau i gyffyrdd, gan gynnwys yng Nghyfnwidfa Ewloe;
- Ffyrdd cyswllt cyfochrog
- Dileu, addasu a gwella cyffyrdd
- 3 lôn i'r ddau gyfeiriad
- Oddeutu 9.8km o hyd

### Mae'r Dewis Coch yn cynnwys:

- Mwy o gapasiti ar hyd yr A548 bresennol;
- Ffordd newydd rhwng yr A55 a'r A548;
- Addasu a gwella cyffyrdd
- 2 lôn i'r ddau gyfeiriad
- Oddeutu 13.0km o hyd – gwella'r un aliniad yn rhannol ac aliniad newydd yn rhannol

Bydd y ddau Ddewis yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr difodur; ystyriaeth o'r dirwedd leol; gofynion ecolegol a ffactorau amgylcheddol dynol.

Mae adnewyddu Pont Dyfrdwy yr A494 yn gynllun ar wahân. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn annibynnol ar ganlyniad asesiad Cam 2 WeITAG o'r Dewisiadau Glas a Choch fel y disgrifir uchod.

Mae 'Symud Gogledd Cymru Ymlaen', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafniadaeth integredig ar draws Gogledd Cymru a datblygu Metro Gogledd-ddwyrain Cymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canolfannau trafniadaeth integredig a gwella mynediad i Lannau Dyfrdwy trwy'r rheilffordd.

Mae'r ddogfen hefyd yn amlygu bod Gwelliannau i'r A55/A494/A548 Coridor Glannau Dyfrdwy a Gwelliannau i Bont Dyfrdwy yr A494 wedi cael eu datblygu.

### Blue Option includes:

- Widening the A55/A494 route
- Junction improvements including at Ewloe Interchange;
- Parallel link roads
- Removal, modification and improvement of junctions
- 3 lanes in each direction
- Approximate length 9.8km

### Red Option includes:

- Increased capacity along the existing A548;
- A new road between the A55 and A548;
- Modification and improvement of junctions
- 2 lanes in each direction
- Approximate length 13.0km – partly online improvement and partly new alignment

Both Options will contain facilities for non motorised users; consideration for the local landscape; ecological requirements and human environmental factors

The renewal of the A494 Dee Bridge is a separate scheme. This work will be done independently of the outcome of the WeITAG Stage 2 assessment of the Blue and Red Options as described above.

Moving North Wales Forward' published in March 2017, sets out the Welsh Government's vision for an integrated transport network across North Wales and the development of a North East Wales Metro. This will include the development of integrated transport hubs and improved rail access to Deeside.


The document also identifies both the A55/A494/A548 Deeside Corridor Improvement and the A494 River Dee Bridge Improvement as being developed.



# Y Dewisiadau a Gynigir Proposed Options



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government






# Cyfyngiadau Amgylcheddol Environmental Constraints



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





# Tabl Crynhoi'r Arfarniad

## Appraisal Summary Table



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Meini Prawf Arfarnu	Crynodeb o arwyddocâd / canfyddiadau ansoddol eraill	Crynodeb o arwyddocâd / canfyddiadau ansoddol eraill
Meysydd Effaith Cymru	Dewis Glas	Dewis Coch
Yr Economi		
Effeithlonrwydd Economaidd Trafnidiaeth	Niwtral ( = ) Costau'r Cynllyn =£283.0m (S4,2015,Eithrio TAW ac chwyddiant) Gwerth Cost Presennol = £168.5m (Prisiau 2010) Gwerth Budd-dal Presennol = £151.9m (Prisiau 2010) BCR = 0.90	Sylweddol Fuddiol ( + + + ) Costau'r Cynllyn =£255.4m (S4,2015,Eithrio TAW ac chwyddiant) Gwerth Cost Presennol = £152.9m (Prisiau 2010) Gwerth Budd-dal Presennol = £423.5m (Prisiau 2010) BCR = 2.77
Effaith ar Leoliad a Gweithgarwch Economaidd (Effeithiau economaidd ehangach)	Ychydig yn Fuddiol ( + ) Amcangyfrif effethiau GVA rhwng £10.0 ac £16.3 miliwn pob flwyddyn yng Nghymru yn gyfan yn 2032	Gweddol Fuddiol ( + + ) Amcangyfrif effethiau GVA rhwng £33.5 ac £36.3 miliwn pob flwyddyn yng Nghymru yn gyfan yn 2032
Yr Amgylchedd		
Sŵn	Ychydig yn Niweidiol ( - )	Ychydig yn Fuddiol ( + )
Ansawdd Aer Lleol	Niwtral ( 0 )	Niwtral ( 0 )
Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	( heb eu dosbarthu )	( heb eu dosbarthu )
Tirwedd a Threflun	Sylweddol niweidiol ( - - - ) i Ychydig yn Fuddiol ( + )	Sylweddol niweidiol ( - - - ) i Niwtral ( 0 )
Bioamrywiaeth	Adeiladu – Gweddol niweidiol ( - - ) Gweithredol – Niwtral ( 0 ) i Ychydig yn niweidiol ( - )	Adeiladu – Gweddol niweidiol ( - - ) Gweithredol – Gweddol niweidiol ( - - ) i niweidiol iawn ( - - - )
Treftadaeth	Gweddol niweidiol ( - - )	Gweddol niweidiol ( - - )
Amgylchedd Dŵr	Gweddol niweidiol ( - - )	Gweddol niweidiol ( - - )
Priddoedd	Ychydig yn niweidiol ( - )	Ychydig yn niweidiol ( - )
Cymdeithas		
Diogelwch trafndiaeth	Niwtral ( 0 )	Ychydig yn Fuddiol ( + )
Diogelwch personol	Niwtral ( 0 )	Niwtral ( 0 )
Athreiddedd	Niwtral ( 0 )	Niwtral ( 0 )
Ffitrwydd corfforol	Niwtral ( 0 )	Niwtral ( 0 )
Cynhwysiant cymdeithasol	Ychydig yn Fuddiol ( + )	Niwtral ( 0 )
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Niwtral ( 0 )	Ychydig yn Fuddiol ( + )

# Tabl Crynhoi'r Arfarniad

## Appraisal Summary Table



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Appraisal criteria	Summary of significance / other qualitative finding	Summary of significance / other qualitative finding
Welsh Impact Areas	Blue option	Red option
Economy		
Transport Economic Efficiency	Neutral ( = ) Scheme Cost = £283.0m (Q4 2015, Exc VAT and Inflation) Present Value Cost = £168.5m (2010 prices) Present Value Benefits £151.9m (2010 prices) Benefit Cost Ratio = 0.90	Significant Beneficial ( +++ ) Cost = £255.4m (Q4 2015, Exc VAT and Inflation) Present Value Cost = £152.9m (2010 prices) Present Value Benefits £423.5m (2010 prices) Benefit Cost Ratio = 2.77
EALI (Wider economic impacts)	Slight Beneficial ( + ) GVA impacts are estimated at between £15.0 and £16.3 million per year for Wales as a whole in 2032.	Moderate Beneficial ( ++ ) GVA impacts are estimated at around £33.5 and £36.3 million per year for Wales as a whole in 2032.
Environment		
Noise	Slight Adverse ( - )	Slight Beneficial ( + )
Local Air Quality	Neutral ( 0 )	Neutral ( 0 )
Greenhouse Gas Emissions	( not classified )	( not classified )
Landscape and Townscape	Substantial adverse ( - - - ) to Slight Beneficial ( + )	Substantial adverse ( - - - ) to Neutral ( 0 )
Biodiversity	Construction - Moderate adverse ( - - ) Operational - Neutral( 0 ) to slight adverse ( - )	Construction - Moderate adverse ( - - ) Operational - Moderate adverse ( - - ) to large adverse ( - - - )
Heritage	Moderate adverse ( - - )	Moderate adverse ( - - )
Water Environment	Moderate adverse ( - - )	Moderate adverse ( - - )
Soils	Slight adverse ( - )	Slight adverse ( - )
Society		
Transport safety	Neutral ( 0 )	Slight Beneficial ( + )
Personal security	Neutral ( 0 )	Neutral ( 0 )
Permeability	Neutral ( 0 )	Neutral ( 0 )
Physical fitness	Neutral ( 0 )	Neutral ( 0 )
Social inclusion	Slight Beneficial ( + )	Neutral ( 0 )
Equality, Diversity & Human Rights	Neutral ( 0 )	Slight Beneficial ( + )

# Tabl Crynhoi'r Arfarniad - Cyfyngiadau Amgylcheddol

## Appraisal Summary Table



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Sŵn Traffig:

Glas – Ni ddisgwylir i effaith sŵn traffig newid llawer ar y rhan fwyaf o eiddo preswyl. Fodd bynnag, byddai cyffyrdd newydd ac wedi'u hailfodelu yn cynyddu sŵn traffig ar hyd rhai ffyrdd lleol.

Coch – byddai'n dod â chefnffordd newydd trwy ardal wledig nad yw'n agored i sŵn traffig agos ar hyn o bryd, ac yn ychwanegu traffig at lwybr presennol yr A548. Bydd effaith sŵn ar eiddo preswyl yn dibynnu ar leoliad yr eiddo, ond gallai mesurau lliniaru mewn lleoliadau strategol leihau effeithiau sŵn ar yr eiddo yr effeithir arno fwyaf.

### Ansawdd Aer Lleol:

Glas – ni ddisgwylir iddo gynyddu'r nifer fach o leoliadau derbynydd sensitif yn fwy nag amcanion ansawdd aer cymedrig blynyddol (NO2) yn ystod y flwyddyn agoriadol (2022) gan ddefnyddio rhagfynegiadau ceidwadol ar gyfer cerbydau.

Coch – byddai'n lleihau traffig ar yr A55 a'r A494 ac felly'n lleihau crynodiadau NO2 a gronynnau (PM10) ar gyfer preswylwyr cyfagos, ond yn cynyddu allyriadau traffig (NO2 a PM10) mewn lleoliadau ger y Dewis Coch.

Ni fyddai lefelau PM10 yn mynd yn fwy na'r amcanion mewn unrhyw leoliadau yn y naill Ddewis na'r llall, a rhagwelir y bydd mireinio'r aliniad a gwelliannau i allyriadau cerbydau yn y dyfodol yn lleihau amlygiad i NO2 a PM10.

### Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr:

Cynnydd bach o dan y ddau Ddewis o ganlyniad i fwy o deithiau, sy'n gorbwyso'r buddion o ran allyriadau a ddaw yn sgil gwella llif traffig.

### Tirwedd a Threflun:

Glas – bydd ffermydd ac anheddau'n cael eu colli a llwybrau troed cyhoeddus yn cael eu gwahanu. Bydd yn arwain at golli llystyfiant, arwyneb ffordd ychwanegol, codi cyffyrdd, goleuadau ychwanegol a newidiadau tebyg.

Coch – byddai hefyd yn arwain at golli tir amaethyddol a choetir hynafol rhwng Llaneanrgain a Chelstryn.

Byddai mesurau lliniaru yn cynnwys ailgyflwyno nodweddion tirwedd a gollir yn sgil y gwaith gwella, a byddai coetir newydd yn cael ei blannu mewn ardaloedd sylweddol wedi'u targedu a fyddai'n datblygu'n raddol i ddisodli neu wella sgrinio.

### Bioamrywiaeth:

Byddai'r ddau Ddewis yn arwain at golli cynefin o safleoedd a warchodir a ddangosir ar dudalennau 8 a 9; bydd mesurau lliniaru yn hanfodol.

Byddai'r ddau Ddewis yn arwain at golli cynefin glaswelltir a choetir ar hyd y coridor, a fyddai'n debygol o effeithio ar rywogaethau a warchodir a rhywogaethau eraill. Byddai

### Traffic Noise:

Blue - At most residential properties, traffic noise is not expected to change noticeably. However, new and remodelled junctions would increase traffic noise along some local roads.

Red - would bring a new trunk road through a rural area not currently exposed to traffic noise in close proximity, and add traffic to the existing A548 route. Noise impacts at residential properties depend on location, however mitigation at strategic locations may achieve a reduction in the noise effects at properties most affected.

### Local Air Quality:

Blue - is not expected to increase the small number of sensitive receptor locations exceeding annual mean air quality objectives (NO2) in the opening year (2022) using conservative predictions for vehicles.

Red - would reduce traffic on the A55 and A494 and so reduce both NO2 and particulates (PM10) concentrations for nearby residents, but introduce increased traffic emissions (both NO2 and PM10) at locations near the Red Option.

No locations would exceed the objectives for PM10 with either Option, and refining the alignment and future improvements in vehicle emissions are predicted to reduce exposure to both NO2 and PM10.

### Greenhouse Gas Emissions:

Increased slightly under both Options as a result of an increased number of journeys which outweighs the emission benefits of improvement to traffic flow.

### Landscape and Townscape:

Blue - affected by loss of farmsteads and dwellings and severance of public footpaths. Vegetation loss, additional road surface area, elevation of junctions, additional lighting and similar changes.

Red - would also cause a loss of agricultural land and ancient woodland between Northop and Kelsterton. Mitigation by reinstatement of landscape features lost to the improvement, and substantial, targeted areas of new woodland planting would develop progressively to replace or improve screening.

### Biodiversity:

Both Options would lead to a loss of habitat from protected sites shown on pages 8 and 9, mitigation will be essential. Both Options would lead to a loss of woodland and grassland habitat along the corridor, likely to affect protected and other species. New habitats and connections would be created as mitigation where possible.



# Tabl Crynhoi'r Arfarniad

## Appraisal Summary Table – Environmental Constraints



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

cynefinoedd a chysylltiadau newydd yn cael eu creu fel mesurau lliniaru lle y bo'n bosibl.

### Safleoedd treftadaeth:

Mae coridorau'r ddau Ddewis yn cynnwys safleoedd ar ffurf adeiladau yn bennaf na fyddai'r cynigion yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, neu nodweddion o arwyddocâd isel.

### Amgylchedd dŵr:

Byddai'r ddau Ddewis yn golygu bod angen rhai cwlffertau newydd a dargyfeirio cyrsiau dŵr. Byddai camau lliniaru trwy gynllunio i gydbwysu llifoedd, diogelu ansawdd dŵr ac ailgyflwyno cynefinoedd yn cyfyngu'r effeithiau negyddol.

### Priddoedd a daeareg:

Y ddau Ddewis: fydd priddoedd amathyddol yn cael ei cadw ac ei aildefnyddio, felly ni ragwelir newid o ran ansawdd a/ neu ddefnydd pridd y tu allan i'r gwaith, o ran nodweddion daearegol na dyfrhaenau, a dim effaith fesuradwy ar bobl, priddoedd, adeiladau nac ecosystemau eraill yn codi o halogi'r ddaear.

### Cymunedau a Defnydd Tir:

Glas – byddai'n debygol o effeithio ar oddeutu 12.5ha o dir amaethyddol a busnesau fferm. Byddai mesurau lliniaru yn cynnwys iawndal ariannol ac adeiladwaith hwylustod. Byddai'r angen i ddefnyddio tir yn effeithio'n uniongyrchol ar 7 eiddo preswyl a phum eiddo masnachol, a byddai iawndal ariannol yn cael ei ddarparu.

Glas – byddai'n tresmasu ar sawl rhwystr gwyrdd a ddynodwyd yn lleol. Byddai'n effeithio ar lwybrau troed, llwybrau beicio a throedffyrdd, a byddai darpariaeth amgen yn cael ei ddarparu. Fydd 'Glas' yn ymyrryd ar nifer rhwystrllleol gwyrdd a ddynodwyd yn UDP Sir y Fflint er cyfygu pentrefi ymuno gyda'i gilydd.

Coch – byddai'n debygol o effeithio ar oddeutu 56ha o dir amaethyddol a busnesau fferm. Byddai mesurau lliniaru yn cynnwys iawndal ariannol ac adeiladwaith hwylustod. Byddai'r angen i ddefnyddio tir yn effeithio'n uniongyrchol ar 1 eiddo preswyl, y fferm solar newydd yn Shotwick a thir a neilltuwyd ar gyfer diwydiant, a byddai iawndal ariannol yn cael ei ddarparu.

Coch – byddai'n croesi sawl rhwystr gwyrdd a ddynodwyd yn lleol. Byddai'n croestorri llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a nifer o droedffyrdd dynodedig, gan greu gwahaniad newydd a fyddai'n cael ei liniaru trwy ddarparu llwybrau amgen

### Heritage sites:

Both Option corridors contain sites which are mainly in the form of buildings which would not be directly affected, or features of low significance.

### Water environment:

Both Options would require some new culverts and diversions of watercourses. Mitigation by designing to balance flows, protect water quality and reinstate habitats would limit the negative effects.

### Soils and geology:

Both Options: agricultural soils would be conserved and re-used, so there is no predicted change in soil quality and/ or use outside the works, in geological features or aquifers, and no measurable effect on humans, soils, buildings, or other ecosystems, arising from ground contamination.

### Communities and Land Use:

Blue - likely to affect about 12.5ha of agricultural land and farm businesses. Mitigation would be by financial compensation and accommodation works. 7 residential properties and five commercial properties would be directly affected by the need to use land, and financial compensation would be provided.

Blue - would encroach into several locally designated green barriers in the Flintshire UDP and intended to prevent coalescence of settlements. Footpaths, cycleways and footways would be affected, and alternative provision would be made.

Red - likely to affect about 56ha of agricultural land and farm businesses. Mitigation would be by financial compensation and by accommodation works. 1 residential property, the new solar farm at Shotwick and land allocated for industry would be directly affected by the need to use land, and financial compensation would be provided.

Red - would cross several green barriers. It would intersect designated footpaths, cycleways, bridleways and numerous footways, creating new severance which would be mitigated by the provision of alternative routes

# Crynodeb a beth fydd yn digwydd nesaf

## Summary and what happens next



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Sut gallwch chi helpu?

Gallwch leisio'ch barn am y dewisiadau trwy ddychwelyd yr holiadur erbyn **dydd Llun 5 Mehefin 2017**

Argymhellwn eich bod chi'n gofyn cwestiynau i'r staff yn yr Arddangosfa Ymgynghoriad Cyhoeddus hon. Bydd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'i Hymgyngorwyr ar gael i esbonio'r dewisiadau'n fanylach ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Gellir gweld yr Adroddiad Asesu Cynllun Rhagarweiniol yn ystod oriau busnes arferol mewn sawl Adeilad Dinesig ac adeiladau cyhoeddus eraill yn ardal Glannau Dyfrdwy. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, gellir gweld gwybodaeth am bob Dewis ar wefan Llywodraeth Cymru lle y gallwch lenwi holiadur ar-lein i gyflwyno eich safbwyntiau. Dyma gyfeiriad y wefan:

<https://consultations.gov.wales/>

Mae gwaith cymorth I EIA ac AIES/HRA yn parhau ac fydd dogfennau cychwynnol ar gael yn gynnar yn mis Ebrill.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd ymatebion gennych chi a'ch awdurdodau lleol a chyrrff eraill â buddiant yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru a'i Hymgyngorwyr cyn i'r cynllun gael ei ddatblygu ymhellach.

### Sut i ymateb a gofyn cwestiynau

Cysylltwch â Llywodraeth Cymru i roi adborth neu ofyn cwestiynau trwy:

- Fynd i un o'r Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus yn
- Dychwelyd yr holiadur yn yr amlen ragdaledig
- Ysgrifennu i'r cyfeiriad RHADBOST – RHADBOST, Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9RZ

### Mynediad at Wybodaeth

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holiaduron hyn i ddarparu tystiolaeth ar gyfer datblygu ffyrdd o wella trafniadaeth yn ardal Glannau Dyfrdwy a'r cyffiniau. Bydd yr holiaduron yn cael eu gwaredu'n ddiogel ar ôl iddynt wasanaethu eu diben. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ac, er mwyn rhoi hygyrdd i'r ymarfer, bydd rhestr o drefi post (e.e. Ewloe) y rhai sydd wedi ymateb yn cael ei chynnwys.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, sy'n golygu y gallai'r holiaduron gael eu rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth. Fodd bynnag, bydd yr holl wybodaeth bersonol ynddynt yn cael ei thrin yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

### How can you help?

You can give your views on the opinions by returning the questionnaire by **Monday 5th June 2017**

We recommend that you direct your questions to the staff at this Public Consultation Exhibition. Representatives from Welsh Government and its Consultants are available to explain the options in more detail and answer any questions you may have.

The Preliminary Scheme Assessment Report can be inspected during normal business hours at various Civic Buildings and other public buildings in the Deeside area. During this consultation period, information on each Option can be viewed on the Welsh Government website where you will also find a questionnaire to fill in-on-line to capture your views. The website address is as follows:

<https://consultations.gov.wales/>

Work to support EIA and AIES/HRA process continues and initial reports will be made available in early April 2017.

### What happens next?

Responses from you and from your local authorities and other interested bodies will be considered carefully by Welsh Government and its Consultants before future scheme development.

### How to respond and to make an enquiry

Contact Welsh Government with your feedback or queries by:

- Attending one the Public Consultation Exhibitions
- Returning the questionnaire in the prepaid envelope
- Writing to FREEPOST address – FREEPOST, Welsh Government, Sarn Mynach, Llandudno Junction, Conwy LL31 9RZ

### Access to Information

Welsh Government will use these questionnaires to provide evidence for developing ways to improve transport in and around Deeside. The questionnaires will be disposed of securely after they have served purpose. A summary of the responses to the consultation will be published and to give credibility to the exercise, a list comprising postal towns (e.g. Ewloe) of those who have responded will be included.

Welsh Government is subject to the Freedom of Information Act, 2000 (FoI) and Environmental Information Regulations (EIRs) which means that the questionnaires may be released in response to a request for information. However, all personal data contained within it will be treated in line with our obligations under the Data Protection Act, 1998.